Llais y Dysgwr Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwybodaeth ymchwil 01

## Cefnogaeth i ddysgwyr

www.llyw.cymru

Mae'r daflen wybodaeth hon yn un o gyfres sy'n ymchwilio i themâu allweddol arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru. Mae'n crynhoi'r safbwyntiau cadarnhaol a negyddol a fynegwyd gan ddysgwyr, a negeseuon o ymchwil ar gymorth i ddysgwyr ac ar ysgogi dysgwyr. Rydym wedi defnyddio'r rhain i awgrymu camau gweithredu i ddarparwyr eu hystyried ac i argymell rhagor o adnoddau i'r rheini sydd â diddordeb mewn ymchwilio ymhellach.

## Beth ddywedodd y dysgwyr?

**Cymorth dysgu**

- Mae llawer o ddysgwyr yn canmol safon y cymorth y maent yn ei gael gan eu darparwyr. Maent yn disgrifio staff fel rhai cyfeillgar ac amyneddgar sy’n barod i ateb cwestiynau.
- Mae eraill, yn enwedig ym maes Addysg Bellach, eisiau mwy o gydnabyddiaeth pan fyddant yn cael trafferthion; ond mae eraill eisiau mwy o her a symud yn gynt, yn enwedig ym maes Cymraeg i Oedolion. Mae rhai dysgwyr yn credu y dylai fod gan diwtoriaid well dealltwriaeth o ba mor gyflym y gall unigolion wella.
- Mae prentisiaid yn gwerthfawrogi gallu cysylltu â’u haseswyr ‘y tu allan i oriau’ a chael ateb yn gyflym.
- Mae rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen i diwtoriaid gymryd mwy o amser i esbonio beth sydd ei angen ar gyfer aseiniadau, tasgau neu brosiectau, a gwneud yn siŵr bod pawb yn deall.
- Mae cymorth un i un yn cael ei werthfawrogi'n fawr ym mhob sector. Mae llawer o ddysgwyr (yn enwedig prentisiaid) yn canmol lefel y cymorth unigol y maent yn ei gael gan diwtoriaid ac aseswyr; fodd bynnag, mae rhai myfyrwyr addysg bellach yn meddwl bod dosbarthiadau’n rhy fawr ac nad yw tiwtoriaid yn rhannu eu hamser a’u sylw mewn ffordd deg.
- Hoffai dysgwyr fwy o gymorth gyda:
  - chynllunio ac ysgrifennu aseiniadau
  - adolygu
  - Saesneg, Cymraeg a mathemateg
  - cymorth ychwanegol ar gyfer anawsterau dysgu, yn enwedig dyslecsia.

**Cymorth personol**

- Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn meddwl bod eu tiwtoriaid yn eu trin fel unigolion, ac yn deall materion personol megis problemau ariannol, gofal plant neu salwch. Roedd rhai dysgwyr wedi cael sesiynau ychwanegol ac amser i ddal lan gyda gwaith ar ôl cyfnodau o absenoldeb.
- Mae dysgwyr yn aml yn ystyried cefnogaeth a dealltwriaeth gan diwtoriaid fel ffactor hanfodol i’w helpu a chynyddu eu hyder a’u cymhelliant. Mae rhai, fodd bynnag, yn meddwl bod angen i diwtoriaid ddangos mwy o ddealltwriaeth o anawsterau personol megis problemau emosiynol neu deuluol.
- Mae rhai myfyrwyr addysg bellach am i’w colegau fod yn fwy ymwybodol o faterion fel iechyd meddwl, straen ac iselder, ac i ddelio â nhw gyda mwy o sensitifrwydd.
- Cafwyd sylwadau negyddol gan rai myfyrwyr addysg bellach ynghylch gwybodaeth ac agweddau staff gwasanaethau myfyrwyr, a nododd eraill eu bod wedi cael cyngor gwahanol gan staff gwahanol.

**Cymorth ariannol**

- Mae llawer o bobl sy’n derbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg o’r farn nad yw’r systemau talu’n ddibynadwy, ac mae rhai’n pryderu nad yw cofrestrau’r darparwyr yn ddigon cywir nac amserol ar gyfer talu’r lwfans.
- Yn yr un modd, mae rhai dysgwyr sy’n oedolion yn gorfod aros yn hir am gymorth Gorant Dysgu’r Cynulliad.
- Mae dysgwyr eisiau mwy o gymorth gyda theithio, costau bwyd, argraffu a deunyddiau eu cwrs.

# Strategaethau effeithiol ar gyfer cefnogi dysgwyr

Daw'r strategaethau isod o amrywiaeth o gyhoeddiadau ynghylch cymorth i ddysgwyr. Mae'r cyhoeddiadau eu hunain yn seiliedig ar ymchwil trylwyr i 'beth sy'n gweithio' mewn lleoliadau ôl-16.
I gael rhagor o wybodaeth darllenwch yr adran 'Adnoddau' ar ddiwedd y nodyn briffio hwn.

**Cynnwys cymorth yn y cwricwlwm**

Yn aml, bydd angen rhaglenni penodol sy'n cynnig llawer o gymorth ar ddysgwyr agored i niwed a dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau. Mae astudiaethau gan Ofsted[1] wedi pwysleisio pwysigrwydd dyddiadau cychwyn hyblyg, cyfleoedd i wneud cynnydd a chymorth allgyrsiol o ran helpu i gadw pobl ifanc agored i niwed yn rhan o addysg. Mae'r darparwyr gorau'n deall bod llawer o ddysgwyr wedi cael profiadau negyddol yn yr ysgol a bod angen defnyddio dulliau creadigol i ennyn eu diddordeb o'r cychwyn.

Nododd Ofsted nifer o **rwystrau i ddysgu ac addysgu effeithiol**,yn cynnwys:

- disgwyliadau isel o ddysgwyr ymhlith athrawon, gorddefnydd o gymorth i wneud yn iawn am addysgu nad yw'n ddigon heriol, diffyg sylw i ymreolaeth i ddysgwyr
- gormod o bwyslais ar orffen gweithgareddau dysgu heb sicrhau bod prif bwyntiau dysgu wedi'u deall
- gwastraffu amser ar waith annibynnol heb strwythur gan ddefnyddio gwybodaeth annibynadwy neu amherthnasol; hyn yn niweidiol i ddatblygiad dysgwyr o ran gwybodaeth, ymgysylltiad a diddordeb
- defnyddio amser dysgu'n anghynhyrchiol gan nad yw gweithgareddau wedi'u strwythuro nac yn cael eu monitro'n ddigonol, ac mae rhai yn colli'u ffordd
- Dim digon o bwyslais ar sicrhau bod dysgu yn y swydd o safon uchel.

**Teaching, learning and assessment in further education and skills – what works and why**[2]
(Ofsted, 2014)

Mae adborth Llais y Dysgwr yn dangos nad yw dysgwyr bob amser yn teimlo bod tiwtoriaid yn deall eu hanghenion unigol, neu nad ydyn nhw'n cael digon o gymorth i wneud cynnydd yn ôl eu cyflymdra eu hunain. Mae gan yr ymgynghorydd addysgol Joanne Miles, sydd wedi gweithio gyda sawl coleg a darparwr yng Nghymru, gyngor ar ddefnyddio **dysgu gwahaniaethol**[3] i ddiwallu anghenion unigol o fewn grwpiau cymysg. Mae'n cynnwys dulliau i'w defnyddio pan fo angen, megis:

- ffyrdd o ddysgu terminoleg neu gysyniadau'n gyflym
- banc o gwestiynau i ysgogi myfyrio ar ddysgu, wedi'u teilwra i wahanol lefelau o gynnydd neu ddealltwriaeth
- gweithgareddau cyflym i ennyn diddordeb a herio dysgwyr sy'n gorffen yn gyflym.

Gallai rhai darlithwyr esbonio pethe'n well. Dwi wedi bod yn styc ar aseiniad ac wedi gofyn am help – ond heb gael esboniad hyd yn oed wedyn.

Dylai gwahaniaethu fod yn rhan hanfodol o ddysgu, nid dim ond yn rhywbeth ychwanegol pan nad yw pethau'n mynd yn iawn. Nid datrysiad cyfleus yw gwahaniaethu. Mae'n gysyniad sydd angen ei ystyried mewn ffordd gynhwysol, ac sy'n berthnasol i bawb.

Geoff Petty[4]

Mae llawer o ddysgwyr yn astudio **llythrennedd a rhifedd** fel rhan o'u rhaglenni, ac o hydref 2015 ymlaen, bydd hyn yn cynyddu wrth i fwy o ddysgwyr ailsefyll TGAU Cymraeg/Saesneg a Mathemateg. Yn aml, mae hyn yn dipyn o her i ddysgwyr sydd eisoes wedi cael trafferth â'r pynciau hyn yn yr ysgol neu sy'n methu â gweld pam eu bod yn berthnasol i'r hyn y maent yn ei wneud. Mae Ymchwil gan NIACE[5] ar ennyn diddordeb dysgwyr o ran TGAU Mathemateg a Saesneg yn dangos bod ar ddysgwyr angen y canlynol:

- deall diben a phwysigrwydd y cymwysterau
- gweld bod yr hyn y maent yn ei ddysgu yn berthnasol, gydag adborth i gysylltu'r gweithgareddau â'r prif gymwysterau y maent yn astudio ar eu cyfer
- amser i ymarfer pynciau y maent yn eu cael yn anodd
- eglurder o ran sut y cânt eu hasesu, gan gynnwys bod yn agored ynghylch cynlluniau marcio
- asesiadau cychwynnol amserol i bennu anghenion o ran cefnogaeth
- parodrwydd i ofyn am help, gan gynnwys gan eu cyfoedion.

**Darpariaeth fugeiliol**

Efallai nad yw eich sefydliad yn defnyddio'r term 'darpariaeth fugeiliol', ond mae pob darparwr yn ei ddarparu. Mae LSIS yn diffinio darpariaeth fugeiliol, neu 'pastoral provision' yn Saesneg, fel a ganlyn: 'provision offered to all learners in a personalised way to meet their individual needs so that they have a successful learning experience, achieve and progress'.

Mae arolygiadau Estyn wedi canfod bod gan y rhan fwyaf o ddarparwyr ôl-16 drefniadau da ar gyfer rhoi cefnogaeth unigol, ond nad oes llawer yn gwerthuso faint o ddysgwyr sy'n defnyddio'r gefnogaeth, nac effaith y gefnogaeth.

**Darpariaeth fugeiliol effeithiol:**

- mae'r arweinyddiaeth wedi ymrwymo'n llawn iddi
- caiff ei gwerthuso a'i hadolygu'n barhaus, gyda mewnbwn gan ddysgwyr
- caiff ei chefnogi gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus
- caiff ei chyflawni mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol
- mae'n elfen strwythuredig o bob cam o 'daith y dysgwr', a chaiff ei chefnogi gan adnoddau
- mae'n magu hunanhyder ac annibyniaeth
- mae'n cydnabod amrywiaeth dysgwyr, ac yn annog dysgwyr i ddewis gwasanaethau datblygu a chymorth sy'n briodol i'w hanghenion
- mae'n ddynamig; mae'n cydnabod y gall anghenion unigolion amrywio yn ystod eu taith drwy addysg
- mae'n sicrhau mynediad at wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chanllawiau i alluogi dysgwyr i wneud y dewisiadau cywir o ran eu dysgu a'u datblygiad
- mae'n galluogi dysgwyr i fynd i'r afael â materion personol, cymdeithasol, ffydd, moesol, iechyd ac ariannol.

Wedi'i addasu o **Supporting learners to succeed: Guidance for pastoral provision** (LSIS, 2009)

Mae rhaglen ymchwil Dysgu i Ddysgu mewn Addysg Bellach[6] yn pwysleisio nad yw pob dysgwr ôl-16 yn barod i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu, a gall athrawon helpu rhai i ddeall y gallan nhw ddatblygu'r gallu i ddysgu yn raddol ac nad yw'n ddawn sydd gan rai ond nad yw gan eraill. Mae'r ymchwil hefyd yn argymell defnyddio cydberthnasau rhwng cymheiriaid a chyfoedion er mwyn i ddysgwyr gefnogi ei gilydd.

Mae astudiaeth gwmpasu[7] i **iechyd meddwl** myfyrwyr addysg bellach wedi nodi bod y ffactorau hyn, ymhlith eraill, yn bwysig i lwyddiant:

- arweinyddiaeth strategol ac arweinyddiaeth lefel ganolig gadarn
- staff â chyfrifoldebau penodol ym maes iechyd meddwl
- cynyddu ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad ynghylch sut y mae iechyd meddwl yn effeithio ar gadw dysgwyr mewn addysg a'u cyflawniad
- datblygu proffesiynol haenog i staff, fel bod pawb yn ymwybodol o faterion iechyd meddwl sylfaenol, a bod rhai'n gallu darparu cymorth mwy dwys
- cynnwys iechyd meddwl mewn rhaglen iechyd ehangach, yn hytrach na delio â phroblemau fel y maent yn codi
- defnyddio arbenigedd allanol, megis Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS).

Mae'n **hanfodol** hyfforddi staff i adnabod myfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu neu broblemau emosiynol er mwyn eu cynorthwyo mewn ffordd briodol.

**Cymorth cyfannol o amgylch y dysgwr**

Mae pennu anghenion dysgu unigol dysgwyr, boed yn gysylltiedig â chymorth dysgu neu rwystrau personol rhag cymryd rhan, yn aml yn dibynnu ar bartneriaethau i ddarparu cymorth 'o amgylch' y dysgwr. Mae ein gwerthusiad[8] o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn dangos bod rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol, darparwyr ôl-16 a phartneriaid eraill yn helpu i dracio dysgwyr a chanfod dysgwyr a allai fod mewn perygl o adael addysg.

Mae ymchwil[9] gan Gymdeithas Cwnsela Seicotherapi Prydain, yn seiliedig ar adborth gan 5,500 o fyfyrwyr addysg bellach ac uwch, yn dangos y gall **gwasanaethau cwnsela** gael effaith gadarnhaol sylweddol ar y profiad dysgu. Dywedodd tua 75 y cant ohonynt fod cwnsela wedi'u helpu i aros mewn addysg, a dywedodd bron gymaint ei fod wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau sy'n ddefnyddiol i ddod o hyd i gyflogaeth. Gall cwnsela ddarparu lle diogel i ddelio ag amgylchedd newydd a heriol a gall gynyddu hyder dysgwyr a'u gobaith at y dyfodol.

Mae'n wych bod y coleg hwn yn cynnig gwasanaeth cwnsela. Alla i ddim dechrau disgrifio sut mae wedi fy helpu i fod yn berson cryfach ac i reoli fy mhryderon.

# Cynllun gweithredu

- ➔ Ystyriwch sut i integreiddio gwerthuso cymorth i ddysgwyr, gan gynnwys monitro faint sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth, mewn systemau cyfredol megis tracio dysgwyr, cynllunio dysgu unigol, a hunanasesu.
- ➔ Os yw'ch sefydliad yn rhan o'r broses o weinyddu cymorth ariannol i ddysgwyr, megis Lwfans Cynhaliaeth Addysg neu grantiau eraill, beth am wirio pa mor amserol a chywir yw eich systemau talu; ystyriwch sut i ddefnyddio taliadau amserol, adborth gan ddysgwyr a mesuriadau metrig eraill i gyfrannu at fonitro parhaus.
- ➔ Efallai y bydd dull gwerthuso effaith BACP o ddefnydd i golegau a darparwyr eraill sy'n cynnig gwasanaethau cwnsela i asesu effaith y gwasanaeth ar ddeilliannau dysgwyr.
- ➔ Ymunwch â'r e-rwydwaith **Iechyd Meddwl mewn Addysg Bellach** i ddod o hyd i adnoddau, deunyddiau datblygu proffesiynol parhaus a chyngor sy'n berthnasol ar draws y sector ôl-16 sector.
- ➔ Sicrhewch fod eich cynlluniau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i'ch staff yn cynnwys gweithgareddau strwythuredig i helpu i bennu dysgwyr ag anghenion dysgu neu anghenion personol penodol, a'u cyfeirio ymlaen at gymorth perthnasol, boed hynny'n fewnol neu'n allanol.

# Adnoddau

- ***Supporting young people to participate in education and training***[10] (Ofsted, 2014)
  Adolygiad o saith coleg yn Llundain i bennu arfer da o ran ail ennyn diddordeb â phobl ifanc.
- ***Learning to learn in further education***[11] (Y Ganolfan Ymchwil Dysgu ac Addysgu, 2010)
  Nodyn briffio yn seiliedig ar ymchwil ymarferwyr addysg bellach.
- ***Mental health and emotional well-being of students in further education - a scoping study***[12] (University of London, 2006)
  Ymchwil yn cynnwys astudiaethau achos a dadansoddiad o ffactorau llwyddiant.
- ***Skills for Life: effective strategies to support learner persistence, progress and progression***[13] (Learning Skills and Improvement Service, 2010)
  Mae'n cynnwys negeseuon allweddol ar gyfer gwelliant sydd wedi'u hanelu at ddarparwyr dysgu.

Y Gymdeithas Genedlaethol dros Ofal Bugeiliol mewn Addysg www.napce.org.uk

Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi – gwefan benodol ar gyfer prifysgolion a cholegau www.bacpuc.org.uk/index.php

## Llais y Dysgwr

Arolwg blynyddol Llywodraeth Cymru o ddysgwyr ym maes addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, dysgu cymunedol i oedolion a Chymraeg i Oedolion yw 'Llais y Dysgwr'. Fe'i lansiwyd yn 2013, ac mae'n ceisio barn dysgwyr ar ystod o bynciau megis:

- gwybodaeth, cyngor a chanllawiau
- cymorth a chefnogaeth
- dysgu ac addysgu
- lles ac ymatebolrwydd
- dysgu cyfrwng Cymraeg
- bodlonrwydd cyffredinol.

Hefyd, gofynnir i ddysgwyr sôn am yr hyn y maent yn ei hoffi am eu darparwr dysgu, a'r hyn y gellid ei wella.

Mae'r crynodeb o'r arolwg ar gael o: http://llyw.cymru/llaisydysgwr.

Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch post16quality@cymru.gsi.gov.uk.

[1] *Supporting young people to participate in education and training* (Ofsted, 2014) (Saesneg yn unig)
www.gov.uk/government/publications/supporting-young-people-to-participate-in-education-and-training

[2] *Teaching, learning and assessment in further education and skills – what works and why* (Ofsted, 2014) (Saesneg yn unig)
www.gov.uk/government/publications/teaching-learning-and-assessment-in-further-education-and-skills-what-works-and-why

[3] 'Differentiation without extra handouts: tips for stretching and challenging learners' (Joanne Miles Consulting) (Saesneg yn unig)
https://joannemilesconsulting.wordpress.com/2012/08/23/differentiation-without-extra-handouts-tips-for-stretching-and-challenging-learners/

[4] 'Differentiation' (Geoff Petty) (Saesneg yn unig)
http://geoffpetty.com/training-materials/differentiation/

[5] *Engaging learners in GCSE maths and English* (National Institute of Adult Continuing Education, 2015) (Saesneg yn unig)
http://shop.niace.org.uk/engaging-learners-gcse-maths-english.html

[6] *Learning to Learn in Further Education* (CfBT Education Trust, 2010) (Saesneg yn unig)
http://www.cfbt.com/en-GB/Research/Research-library/2010/r-learning-to-learn-in-further-education-2010

[7] *Mental health and emotional well-being of students in further education – a scoping study* (University of London, 2006) (Saesneg yn unig)
http://core.ac.uk/download/pdf/82092.pdf

[8] *Gwerthusiad ffurfiannol o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid – Canfyddiadau Dros Dro* (Llywodraeth Cymru, 2014)
www.gov.wales/docs/caecd/research/2014/141216-evaluation-youth-engagement-progression-framework-interim-cy.pdf

[9] 'The positive wider impact of counselling provision in colleges and universities' in *University & College Counselling* September 2014 (British Association for Counselling and Psychotherapy, 2014) (Saesneg yn unig)
http://bacpuc.org.uk/_sitedata/1430485622%20akPtNy4vs/Articles/14%20-%20Sep%20-%20Impact.pdf

[10] *Supporting young people to participate in education and training* (Ofsted, 2014) (Saesneg yn unig)
www.gov.uk/government/publications/supporting-young-people-to-participate-in-education-and-training

[11] *Learning to Learn in Further Education* (CfBT Education Trust, 2010) (Saesneg yn unig)
http://www.cfbt.com/en-GB/Research/Research-library/2010/r-learning-to-learn-in-further-education-2010

[12] *Mental health and emotional well-being of students in further education – a scoping study* (University of London, 2006) (Saesneg yn unig)
http://core.ac.uk/download/pdf/82092.pdf

[13] 'Skills for Life: effective strategies to support learner persistence, progress and progression' (Learning and Skills Improvement Service, 2010) (Saesneg yn unig)
http://www.excellencegateway.org.uk/content/import-pdf2172-0

ISBN: 978 1 4734 4378 5
© Hawlfraint y Goron Rhagfyr 2015
WG26057